NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Sgan uwchsain dwysedd isel sy'n pylsadu i hyrwyddo'r broses o wella toriadau newydd sy'n wynebu risg isel o beidio â gwella

31 Gorffennaf 2018

Ni ddylid defnyddio'r driniaeth hon. Mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n gweithio i hyrwyddo’r broses o wella toriadau newydd (toriadau asgwrn) sy'n wynebu risg isel o beidio â gwella.

Gall toriadau gymryd sawl mis i wella. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys triniaeth ddyddiol (fel arfer am tua 15 i 20 munud), gan ddefnyddio stiliwr uwchsain a leolir ar y croen ar safle'r toriad. Y nod yw cyflymu'r broses o wella drwy ysgogi celloedd asgwrn i dyfu ac adnewyddu.

Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol siarad â chi am opsiynau triniaeth eraill.

Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

ISBN: 978-1-4731-3023-4

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights